Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Happy Days Holiday Club/Clwb Gwyliau Hapus**

**Ysgol Gynradd Gymunedol Llangynnwr**
**Lôn Penymorfa**
**Caerfyrddin**
**SA31 2NN**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/08/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Happy Days Holiday Club/Clwb Gwyliau Hapus

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Person Cofrestredig | Sandra Rowlands |
| Lleoedd cofrestredig | 50 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Hydref 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus oherwydd bod eu dymuniadau yn cael eu hystyried. Maent yn teimlo'n hapus, wedi setlo ac yn cael cyfleoedd da ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau'r annibyniaeth i wneud pethau drostynt eu hunain.

Mae'r staff yn deall polisïau'r lleoliad ac yn eu gweithredu'n gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a llesiant y plant. Mae'r staff yn ymwybodol o risgiau ac yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Maent yn fodelau rôl da ac yn meithrin hyder a hunan-barch y plant sy'n cael gofal ganddynt.

Mae'r arweinwyr yn rhoi mesurau ar waith ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau diogelwch y plant. Maent yn datblygu eu hasesiadau risg ac yn sicrhau bod cyfarpar diogelwch yr adeilad ar gael. Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau ac yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael arnynt drwy gydol eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r agweddau ar y lleoliad yn cael eu rheoli'n briodol ond mae angen gwneud rhai gwelliannau. Maent yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi'n addas ac yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gyfer eu rolau. Fodd bynnag, nid oedd ffeiliau pob aelod o'r staff yn gyfredol, felly mae hynny'n faes i'w wella. Mae gan yr arweinwyr bartneriaethau effeithiol ag ysgolion, ac mae'r rhieni yn cefnogi'r lleoliad.

| **Llesiant** | **Da** |
| --- | --- |

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd i wneud penderfyniadau ac maent yn gyfforddus yn gofyn am adnoddau fel gemau. Maent yn rhydd i symud o amgylch y lleoliad ac i ddewis beth yr hoffent chwarae ag ef a gyda phwy, megis mynd ar dreiciau a sgwteri ar hyd llwybrau i'r ardaloedd awyr agored. Mae'r plant yn hyderus wrth wneud dewisiadau ynghylch p'un a ydynt am fod dan do neu yn ardal awyr agored y lleoliad. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau treulio amser wrth y bwrdd celf a chrefft yn yr ardal dan do. Mae'r plant nad ydynt am gymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp fel dawnsio, yn dweud hynny'n glir, ac yn ddigon hapus mynd i ardaloedd eraill o'r lleoliad i barhau â'u gweithgareddau.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, ac wedi setlo. Maent yn gyfarwydd â'u hamgylchedd ac felly yn gyfforddus yn defnyddio'r holl gyfleusterau yn hyderus. Mae'r plant yn gwerthfawrogi awyrgylch hamddenol y lleoliad a'r rhyddid i greu eu hamserlen eu hunain ar gyflymder sy'n addas i'r unigolyn. Maent yn sgwrsio'n agored am yr hyn y maent yn mwynhau ei wneud megis defnyddio'r cestyll bownsio, chwarae tennis bwrdd a datrys problemau ar y llechi digidol. Mae'r plant yn gwenu wrth iddynt gael eu canmol am ddangos caredigrwydd neu am fod yn helpwyr da. Maent yn rhedeg i gyfarch eu ffrindiau wrth iddynt gyrraedd. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau gweld eu ffrindiau a threulio amser gyda'r staff. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson dda. Maent yn feddylgar, ac yn sgwrsio ac yn chwerthin yn agored â'i gilydd, a gyda'r staff ac ymwelwyr. Mae'r plant yn cyfleu eu dymuniadau a'u syniadau yn hyderus. Maent yn hapus ac yn egnïol wrth iddynt chwarae ag eraill, yn ystod gweithgareddau fel pêl-droed a pheintio. Mae'r plant yn rhannu syniadau, yn gweithio gyda'i gilydd, yn cymryd eu tro, ac yn cymdeithasu'n llwyddiannus. Mae'n amlwg eu bod yn gofalu am ei gilydd ac yn annog ei gilydd, yn cynnig cyngor ac yn rhoi awgrymiadau yn ystod gemau, er enghraifft wrth chwarae pŵl. Mae'r plant yn mwynhau'r rhyddid i archwilio, ac maent yn dilyn rheolau sy'n effeithio arnynt ac eraill. Maent yn hyderus os bydd ymwelwyr yn bresennol. Er enghraifft, dywedodd un plentyn ar y castell bownsio, *“why don’t you jump on here and we can have a chat then.”*

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae ac yn ymgysylltu'n dda yn y profiadau sydd ar gael iddynt. Maent yn dangos chwilfrydedd a chyffro wrth iddynt archwilio amrywiaeth o adnoddau chwarae. Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac yn cyfleu eu brwdfrydedd yn agored, er enghraifft wrth wylio'r gemau Olympaidd ar y sgrin fawr. Maent yn ymwybodol o'r hyn sydd wedi'i storio mewn cypyrddau ac yn gofyn yn gwrtais i'r staff os byddant am newid adnoddau, fel y set trenau. Mae'r plant yn mwynhau'r dull symud yn rhydd sydd ar waith fel rhan o'r drefn o ddydd i ddydd, ac yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored mor aml â phosibl. Maent yn gwneud defnydd llawn o'r cyfleusterau a'r adnoddau, a dywedodd y plant eu bod yn mwynhau eu defnyddio. Nid yw'r

plant o dan unrhyw bwysau i gwblhau unrhyw weithgareddau, ac maent yn gwybod y gallant adael adnoddau dychwelyd atynt fel y mynnont.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd cyson dda ar gyfer eu hoedran a'u datblygiad sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant yn annibynnol ac yn gwneud pethau drostynt eu hunain yn fedrus. Er enghraifft, maent yn yfed o'u fflasgiau dŵr drwy gydol y dydd, yn bwyta'n annibynnol yn ystod amser bwyd ac yn defnyddio'r ystafelloedd ymolchi yn hyderus.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Mae'r staff yn brofiadol ac yn deall polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad, gan eu rhoi ar waith yn gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol a llesiant personol y plant. Mae'r staff yn brofiadol ac yn rheoli risgiau yn effeithiol. Maent yn ymwybodol o ddiogelwch y plant, er enghraifft wrth ddefnyddio cestyll bownsio a chwarae gemau yn yr awyr agored. Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn amseroedd byrbryd a chinio, ac yn atgoffa'r plant o weithdrefnau hylendid pan fyddant yn mynd yn ôl ac ymlaen i'r toiled. Mae gan y staff ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau i amddiffyn plant. Maent yn gwybod sut i godi pryderon diogelu ac yn esbonio gweithdrefnau yn hyderus. Mae'r arweinwyr yn cyfleu trefniadau staffio'r lleoliad mewn ffordd agored ac yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r clwb. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac maent yn ymwybodol o'u hanghenion unigol. Mae'r staff yn gyfarwydd â'u cyfrifoldebau o ran alergeddau ac anghenion meddygol y plant ac mae cofnodion ar waith. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau ac yn sicrhau eu bod yn cael pob llofnod sydd ei angen. Mae'r staff yn sicrhau bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi'n unol â'u cynlluniau gofal.

Mae'r staff yn rhyngweithio â'i gilydd a gyda'r plant mewn ffordd barchus ac mae'r plant yn hapus, yn gyfforddus ac yn teimlo'n gartrefol yng nghwmni'r staff. Maent yn meithrin cydberthnasau agos â'r plant ac yn mwynhau gwrando ar eu straeon am y dydd. Mae'r staff yn creu awyrgylch hamddenol ac ymlaciol lle rhoddir blaenoriaeth i lesiant y plant. Mae'r staff yn fodelau rôl da i'r plant ac yn ymgysylltu ac yn sgwrsio'n gynnes â nhw. Er enghraifft, maent yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser bwyd ac yn canolbwyntio'n ofalus ar newyddion a diddordebau'r plant. Mae'r staff yn ymateb i geisiadau a chwestiynau'r plant yn gyson ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd garedig ac ystyriol. Maent yn ofalgar, yn dyner ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant, gan rannu dull cadarnhaol o reoli ymddygiad y plant. Er enghraifft, pan fydd y plant yn cynhyrfu'n ormodol yn ystod gemau yn yr awyr agored, mae'r staff yn ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn yn bwyllog, ac yn meithrin gwerthoedd fel dangos gofal, rhannu, cymryd eu tro ac annog y plant i gydnabod cyflawniadau'r plant eraill. Mae'r staff yn symud o amgylch yr amgylchedd yn barhaus i gefnogi'r plant. Maent yn eistedd wrth fyrddau gweithgareddau, ar y llawr i chwarae gemau mawr ac yn dilyn diddordebau'r plant o amgylch yr ardal awyr agored. Mae'r staff yn canmol y plant yn gyson, gan ddweud, *"da iawn," "Waw, ti wedi neud e."*

Mae'r staff yn meddu ar gymwysterau addas, yn wybodus, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion a diddordebau'r plant, a sut mae hyn yn effeithio ar eu profiadau dysgu. Maent yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae cyffrous ac yn sicrhau bod gan y plant amser i fwynhau eu profiadau chwarae ac archwilio. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd adeiladu, gwnaeth y staff annog y plant i ddatrys problemau ac i ddatblygu eu creadigrwydd, eu dychymyg a'u sgiliau dylunio. Mae'r staff yn cynllunio'r amserlen wythnosol yn unol â cheisiadau a diddordebau'r plant. Er enghraifft, maent yn trefnu mabolgampau, teithiau i ardal goetir y lleoliad, a gweithgareddau megis peintio wynebau a gwneud gemwaith. Mae'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg, amrywiaeth a hawliau'r plant, ac yn sicrhau bod y plant yn deall y gallant wneud dewisiadau a nodi beth y byddai'n well ganddynt ei wneud yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Wrth gefnogi'r plant yn eu gweithgareddau, fel crefftau, gemau, a chwaraeon, maent yn sicrhau rhyddid ac annibyniaeth, sy'n meithrin hyder a hunan-barch y plant.

| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
|---|---|

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn rhoi mesurau a pholisïau ar waith i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do ac awyr agored mewn cyflwr da. Mae'r arweinwyr yn cynnig lleoliad sy'n cael ei redeg yn neuadd yr ysgol, sy'n cynnig gofod chwarae agored, mawr ac wedi'i awyru'n dda. Mae ganddynt asesiadau risg digonol ar waith, megis asesiad risg dyddiol ac maent wrthi'n eu datblygu ymhellach. Er enghraifft, mae'r asesiadau risg sy'n cael eu datblygu yn cynnwys arferion symud yn rhydd, a dull asesu risg graddedig ar gyfer mannau a gweithgareddau, sy'n cael eu hadolygu pan gaiff unrhyw fesurau ychwanegol eu nodi. Mae'r arweinwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn cadw asesiad risg tân effeithiol. Mae'r arweinwyr yn cadw tystysgrifau diogelwch cyfredol ar gyfer yr adeilad a'r cyfarpar. Maent yn rheoli'r cymarebau rhwng y staff a'r plant yn gywir ac yn goruchwylio'r plant yn dda. Mae'r arweinwyr yn cadw cofrestr ddyddiol sy'n cynnig cofnod cywir o pryd y bydd y plant a'r staff yn cyrraedd ac yn gadael y clwb. Maent yn cynnig amgylchedd sy'n cael ei fonitro'n agos gan bob aelod o'r staff. Mae hyn yn sicrhau bod gan y plant y rhyddid i symud o amgylch ardaloedd dynodedig y lleoliad yn annibynnol ac yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn cadw blwch cymorth cyntaf sy'n cynnwys digon o gyfarpar a llyfr ymwelwyr, sy'n sicrhau bod pawb yn y lleoliad yn ddiogel ac y gellir bob amser rhoi cyfrif amdanynt.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal dan do yn cynnig amgylchedd da ar gyfer chwarae yn ogystal â datblygu sgiliau'r plant. Maent yn darparu ardal agored yn neuadd yr ysgol, sy'n amgylchedd delfrydol i'r plant chwarae, archwilio ac ymlacio. Mae hyn yn rhoi rhyddid i'r arweinwyr a'r staff gynllunio a defnyddio neuadd yr ysgol yn unol â diddordebau'r plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn hyrwyddo annibyniaeth y plant gan fod y staff yn paratoi'r ardaloedd yn ofalus er mwyn galluogi'r plant i gael y profiadau gorau posibl. Er enghraifft, gofod i arbrofi, chwarae'n greadigol, datblygu sgiliau celf, sgiliau cystadleuol a sgiliau corfforol. Mae'r arweinwyr yn cynnig amrywiaeth o ardaloedd yn yr awyr agored, megis ardal bicnic, ardal laswelltog, iard,

lloches ac ardal goetir. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y cyfleusterau toiled yn addas, a bod y staff yn dilyn canllawiau i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y plant. Maent yn sicrhau y caiff gwaith papur y clwb ei storio'n gyfrinachol.

Mae'r arweinwyr yn cynnig amrywiaeth dda o adnoddau sy'n briodol ar gyfer oedran y plant er mwyn ysgogi eu chwilfrydedd. Er enghraifft, chwarae byd bach, gemau, posau, jig-sos, dyfeisiau Chrome Book a chyfarpar chwaraeon. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau wedi'u gosod allan, neu wedi'u storio gerllaw, a gall y plant gael gafael ar ddeunyddiau celf, tŷ doliau, llyfrau a hambwrdd tywod a dŵr yn yr ardal awyr agored yn hawdd. Maent yn cynnig ardal awyr agored dda a phwrpasol, sy'n cynnig lle iddynt ddatblygu eu sgiliau ymhellach megis sgiliau corfforol a datrys problemau. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r amgylchedd yn effeithiol i sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd cyffrous i chwarae, dysgu, gwneud ffrindiau, a hybu eu llesiant cyffredinol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r arweinwyr yn teimlo'n angerddol am eu lleoliad ac yn rhannu hyn ag eraill. Maent yn darparu datganiad o ddiben sy'n adlewyrchu trefniadau ac oriau agor y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn darparu polisïau a gweithdrefnau sy'n unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar y cyfan. Maent yn brofiadol ac yn gweithio'n galed i drefnu amserlen flynyddol i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r arweinwyr yn cadw tystysgrifau a gwybodaeth yn ddiogel, megis dogfennau yswiriant blynyddol, dogfennau diogelu data a gwiriadau'r cynllun datgelu a gwahardd. Maent yn adolygu cofnodion fel ffeiliau'r plant bob blwyddyn, ac yn sicrhau bod gwybodaeth gyswllt a chaniatadau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

Mae'r arweinwyr yn cyflwyno adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal, sy'n dangos tystiolaeth o sut maent yn ymateb i adborth. Maent yn dosbarthu holiaduron ac yn gwrando ar farnau a safbwyntiau'r rheini sy'n defnyddio'r lleoliad. O ganlyniad, maent yn gweithio'n barhaus i ddatblygu a gwella eu gwasanaeth gofal.

Mae'r arweinwyr wedi gweithio'n galed dros sawl blwyddyn i sefydlu a chadw tîm o staff sy'n cydweithio mewn ffordd agos ac effeithiol. Dywedodd y staff eu bod yn mwynhau eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y lleoliad a'u bod yn cael budd o gynllunio a darparu amrywiaeth o brofiadau i'r plant.  Dywedodd y staff fod eu gwaith yn rhoi boddhad mawr iddynt a'u bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu diddordebau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn meddu ar gymwysterau priodol, fel cymwysterau gwaith chwarae. Maent yn anelu at fodloni'r gofynion hyfforddiant gorfodol ond nid oes gan bob aelod o'r staff dystysgrifau hyfforddiant perthnasol, fel cymorth cyntaf pediatrig, diogelu a diogelwch bwyd. Esboniodd yr arweinwyr y byddent yn ymdrin â hyn ar unwaith. Mae'r arweinwyr yn cynnal arfarniadau a sesiynau goruchwylio boddhaol ac maent wrthi'n eu

datblygu ymhellach. Dywedodd y staff eu bod yn gallu codi materion yn hawdd a bod eu gofynion unigol bob amser yn cael eu hystyried gan yr arweinwyr. Mae'r arweinwyr yn cadw ffeiliau staff ar gyfer pob aelod o'r staff. Fodd bynnag, nid oedd ffeiliau pob aelod o'r staff yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol. O ganlyniad, mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r arweinwyr sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael lefel dda a chyson o ofal. Maent yn manteisio i'r eithaf ar gysylltiadau cryf â'r ysgol, sy'n sicrhau cyfathrebu effeithiol a chyfleoedd i ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol a'r ardaloedd chwarae awyr agored cyfagos. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi ymateb i gais i dderbyn plant newydd yn ddiweddar gan nad oedd lleoliad arall wedi gallu cynnig cynllun gwyliau haf. Maent felly'n cydweithio'n dda â lleoliadau eraill er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer y plant. Mae'r rhieni yn fodlon ar y lleoliad ac yn gwerthfawrogi'r dulliau cyfathrebu cyson megis apiau a llwyfannau ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r arweinwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni yn rheolaidd ac yn gweithio'n agos gyda nhw i sicrhau bod lleoliad clwb gwyliau dibynadwy ar gael i'r plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod ffeiliau pob aelod o'r staff yn cynnwys dau eirda a hanes cyflogaeth. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau bod asesiadau risg pwrpasol a pherthnasol ar waith ar gyfer ymarfer, gweithgareddau, cyfarpar, adnoddau a chyfleoedd chwarae, sy'n cydbwyso'r risg o niwed yn erbyn y manteision i'r plentyn. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau y caiff anghenion hyfforddiant parhaus y staff eu hystyried ac y cânt eu diwallu'n rheolaidd. |
| Safon 13 (Gofal Dydd) - Person Addas | Sicrhau y caiff sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol eu cynnal er mwyn annog y staff i feddwl am ansawdd eu hymarfer a'u nodau personol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/10/2024